**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.15 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**DRAFFT YMGYNGHOROL "POLISI CYNLLUNIO CYMRU"**

**Diben**

1. Ystyried fersiwn drafft "Polisi Cynllunio Cymru" (Atodiad 1).

2. Cytuno bod y ddogfen i'w dosbarthu ar gyfer proses ymgynghori â'r cyhoedd.

**Crynodeb/Argymhellion**

3. Yn Atodiad 2, mae'r papur hwn yn disgrifio'r prif newidiadau polisi a'r canllawiau ychwanegol yn "Canllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio, Diwygiad Cyntaf (Ebrill 1999) er mwyn llunio'r ddogfen newydd **"Polisi Cynllunio Cymru".** Mae'n argymell y dylid ei dosbarthu ar gyfer proses ymgynghori eang â'r cyhoedd, i gychwyn ddiwedd mis Ionawr. Caiff newidiadau pellach eu gwneud i ddiwyg y ddogfen cyn dechrau'r broses ymgynghori â'r cyhoedd, ond ni fydd y newidiadau hyn yn newid cynnwys y papur o ran polisi.

**Amseru**

4. Cyflwynwyd adroddiad y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir i Sue Essex AC ar 31 Gorffennaf 2000 ac fe'i cyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Medi 2000, a hynny cyn i'r polisi cynllunio gael ei ailddrafftio.

**Cefndir**

5. Mae'r ddogfen "Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Diwygiad Cyntaf (PG(W)

PP) (Ebrill 1999) yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer dull effeithiol o baratoi cynlluniau datblygu'r awdurdodau cynllunio lleol, ac mae angen ei hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ac ar apelau cynllunio. Mae angen i'r ddogfen fod yn gyfoes er mwyn adlewyrchu egwyddorion, dyletswyddau statudol a blaenoriaethau'r Cynulliad, a chynhaliwyd ail adolygiad yn ystod 2000 er mwyn llunio canllawiau newydd, **'Polisi Cynllunio Cymru'.**

6. Sefydlwyd y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir ym mis Ionawr 2000 i roi cymorth gyda'r adolygiad. Nododd y Fforwm pa agweddau ar y canllawiau polisi cynllunio a oedd yn teilyngu sylw brys, ac ystyriwyd pa newidiadau y dylid eu cynnwys yn "Polisi Cynllunio Cymru". Nododd hefyd y materion a ddylai, ym marn y Fforwm, gael eu hystyried yn y tymor hir neu'r tymor canolig, naill ai drwy ymchwil neu is-ddeddfwriaeth.

7. Yn ogystal ag Adroddiad y Fforwm, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol yn yr adolygiad:

- safbwyntiau Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth;
- adolygiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ynghylch effaith y system gynllunio ar arallgyfeirio gwledig (fel y'i nodir mewn llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf at Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, a'i hateb dyddiedig 20 Hydref);
- polisïau, strategaethau a mentrau'r Cynulliad fel y'u nodir mewn dogfennau megis y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a GwellCymru.com;
- dogfennau megis y Bartneriaeth Wledig a phapurau gan y Grwp Ymgynghorol ar Drafnidiaeth a Fforwm yr Arfordir;
- argymhellion y Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru, a esgorodd ar strategaeth tai genedlaethol arfaethedig y Cynulliad ar gyfer Cymru "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru";
- y Fenter Dylunio;
- canfyddiadau ymchwil diweddar e.e. Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio;
- materion sydd wedi dod i'n sylw ers Gwanwyn 1999; a'r
- Fframwaith Gofodol sydd ar droed.

**SYLWER Telegyfathrebu –** mae proses ymgynghori ar wahân ynghylch polisi diwygiedig wedi'i chynnal (daeth i ben ar 5 Ionawr 2001), ac mae'r ymatebion a ddaeth i law wrthi'n cael eu hystyried.

**Cydymffurfio**

8. Mae Adran 304 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r per i wneud gwaith ymchwil, a throsglwyddwyd y per hwn i'r Cynulliad o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999. Mae polisïau cynllunio yn darparu'r fframwaith ar gyfer llunio cynlluniau datblygu statudol ac ar gyfer swyddogaethau rheoli datblygu yng Nghymru, sydd wedi'u

trosglwyddo i’r Cynulliad gan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Mae’r holl bwerau hyn wedi’u dirprwyo i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Mae gan y Cynulliad ber i wneud unrhyw beth sy’n atodol i’w swyddogaethau statudol (Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Nid oes unrhyw faterion sy’n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio’r Cynulliad, ac mae’n fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Ni fydd y broses o baratoi "Polisi Cynllunio Cymru" yn cynnwys unrhyw gostau uwchlaw’r rhai a ddyrannwyd eisoes ar gyfer datblygu polisi cynllunio ac ar gyfer gwaith ymchwil. Bydd costau’r gwaith sy’n gysylltiedig â’r broses ymgynghori â’r cyhoedd yn cael eu hysgwyddo o fewn y cyllidebau presennol ar gyfer costau gweinyddol. Ymgynghorwyd â’r Is-Adran Cynllunio Ariannol, a nodwyd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i’r Cynulliad.

**Themâu Trawsbynciol**

10. Lluniwyd y ddogfen ddrafft yng ngoleuni ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy, mynd i’r afael ag amddifadedd cymdeithasol a Chyfle Cyfartal, ac mae’n rhoi ystyriaeth i’r Gymraeg a materion diwylliannol.

**Camau i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth weithredu arnynt**

11. Ystyried drafft ymgynghorol "Polisi Cynllunio Cymru" a lleisio’u barn ynghylch dosbarthu’r ddogfen ar gyfer proses ymgynghori â’r cyhoedd.

**Cyswllt**

Ms K S Powell, Pennaeth yr Is-Adran Cynllunio est. 3876

Kay.Powell@wales.gsi.gov.uk

**ATODIAD 2**

**FERSIWN DRAFFT ‘POLISI CYNLLUNIO CYMRU’ (5 IONAWR 2001)**

**PRIF NEWIDIADAU POLISI A CHANLLAWIAU NEWYDD**

***3. Egwyddorion Cyffredinol***

**3.1 Datblygu Cynaliadwy**

Mae’r ddogfen yn darparu canllawiau gwell ar ddatblygu cynaliadwy yn unol ag Argymhellion y Fforwm Cynllunio.

**3.2 Hawliau Dynol**

Canllawiau newydd ar y Ddeddf Hawliau Dynol.

**3.3 Tir a ddatblygwyd yn y gorffennol**

Mae’r ddogfen yn nodi’r polisïau perthnasol ac yn diffinio beth yw tir a ddatblygwyd yn y gorffennol ar gyfer pob math o ddatblygiad.

**3.4 Cynllunio Gofodol**

Canllawiau newydd ar gynllunio gofodol – gan adlewyrchu’r ymrwymiad y byddai’r ddogfen hon yn rhoi cychwyn i’r broses o gyflwyno elfen ofodol i bolisïau cynllunio.

***4. Y System Gynllunio***

***4.8 Y Gymraeg***

Mae’r ddogfen wedi’i diweddaru i adlewyrchu Nodyn Cyngor Technegol 20 – sicrhau bod *pob* awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn rhoi ystyriaeth i’r Gymraeg.

***5. Egwyddorion Gweithredu***

**5.1/5.2 Ceisiadau Cynllunio sy’n cael eu galw i mewn/ Apelau Cynllunio y penderfynir**

**arnynt gan y Cynulliad ei hun**

Mae’r ddogfen yn nodi meini prawf y Cynulliad ar gyfer galw ceisiadau cynllunio i mewn ac ar gyfer apelau cynllunio y penderfynir arnynt gan y Cynulliad.

**5.13 Cymryd rhan, a hawl i wybodaeth**

Creu adran sy’n galluogi pobl i ddod o hyd i wybodaeth

**5.17 Gwerth Gorau**

Creu adran ar Werth Gorau

-

-

-

-

***<u>Polisïau Cyffredinol</u>***

**6.1 Dylunio**

Cryfhau’r cyfeiriadau at fod yn gynaliadwy; annog gwaith dylunio arloesol o ansawdd uchel; cydnabod bod dylunio yn broses ynddo’i hun.

**6.2 Atal Troseddau**

Bydd adran ar wahân sy’n cyfeirio’n fwy at ddarpariaethau’r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**6.3 Mynediad i Bawb**

Newidiwyd y pwyslais, gan gyfeirio at fynediad i bawb yn lle cyfeirio at fynediad ac anabledd; cyfeiriad at ddarpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac addasu adeiladau hanesyddol.

***<u>7. Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol</u>***

Mae’r ddogfen yn rhoi ystyriaeth i ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**7.2 Bioamrywiaeth**

Mae’r ddogfen yn gwella’r canllawiau ar fioamrywiaeth, gan roi pwyslais ar sicrhau bod y gymuned yn rhan o’r broses o lunio Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gan gysylltu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol â Chynlluniau Datblygu Unedol (7.2.4, 7.2.5).

**7.3 Cefn Gwlad**

Mae’r ddogfen yn nodi amcanion y Cynulliad ar gyfer cefn gwlad, gan roi pwyslais ar yr angen i gael polisïau sydd wedi’u hintegreiddio’n llawn.

**7.6 Dynodiadau Statudol o Dirwedd**

Mae’r ddogfen yn egluro fod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol o’r un statws, ac y dylid sicrhau y gwneir popeth posibl i rwystro datblygiadau anaddas (7.6.1)

**7.7 Dynodiadau Statudol o Ardaloedd Cadwraeth Natur**

Mae’r ddogfen yn egluro statws Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (7.7.5).

**7.8 Dynodiadau Anstatudol**

Mae’r ddogfen yn fwy cadarnhaol na chanllawiau blaenorol mewn perthynas â dynodiadau anstatudol lleol–ar yr amod bod dynodiadau wedi’u seilio’n gadarn ar asesiad priodol o werth cadwraethol. Ni ddylai’r newid hwn mewn pwyslais arwain at luosogi dynodiadau lleol.

**7.10 Cynlluniau Datblygu a Gwarchod yr Amgylchedd**

Mae’r ddogfen yn pwysleisio bod yn rhaid i gynlluniau datblygu ystyried y dreftadaeth naturiol o fewn strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (7.10.1).

_

_

***8. Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol***

**8.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol**

Mae'r ddogfen yn cryfhau'r cyfeiriadau at fod yn gynaliadwy a chyfrannu at anghenion y presennol. Mae hefyd yn rhoi canllawiau ar oblygiadau Achos Shimizu i Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth.

***9. Ardaloedd Trefol***

Mae'r ddogfen yn cynnwys adran (9) newydd ar gyfer Ardaloedd Trefol sy'n rhoi ystyriaeth i adfywio trefi a dinasoedd ac sy'n hyrwyddo defnydd cymysg ynddynt.

***11. Yr Arfordir***

Mae'r cyfeiriad at ddiffinio Parth Arfordirol wedi'i hepgor.

Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau newydd sy'n dweud y dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi'n glir beth mae'r arfordir yn ei olygu iddynt hwy, ac y dylent ddatblygu neu gymhwyso, polisïau penodol sy'n adlewyrchu nodweddion eu harfordiroedd.

***12.Trafnidiaeth***

Mae'r bennod wedi'i hadolygu a'i had-drefnu i adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

***12.2 Hygyrchedd a Lleoliad Datblygiadau***

Adran newydd ar Hygyrchedd a Lleoliad Datblygiadau.

Canllawiau ar rôl strategaethau yn y Cynlluniau Datblygu Unedol ar gyfer aneddiadau, o ran lleihau'r angen i deithio, gan gynnwys dynodi canolfannau gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig (12.2.2 – 12.2.3).

Canllawiau gwell ar Gerdded, Beicio a Thrafnidiaeth Gyhoeddus (12.3-12.4)

***12.4 Trafnidiaeth Gyhoeddus***

Canllawiau manylach ar y mannau lle newidir o un dull o deithio i ddull arall (12.4.2)

***12.5 Rheoli Traffig a Pharcio***

Mae’r ddogfen yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu safonau ar gyfer nifer uchaf y lleoedd parcio sy’n dderbyniol (12.5.2)

***12.6 Cynllunio ar gyfer darparu Seilwaith Trafnidiaeth***

Canllawiau ychwanegol ar ddarparu seilwaith trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer dulliau o deithio heblaw am y car.

**12.7 *Gweithredu***

Mae’r ddogfen yn ei gwneud yn ofynnol bod Asesiadau Trafnidiaeth yn cael eu darparu ar gyfer prosiectau mawr (yn lle’r Asesiadau o Effaith Traffig) (12.7.2)

***14. Tai***

***14.1 Amcanion***

Nodir amcanion y Cynulliad o ran tai.

***14.2 Faint o dir sydd ar gael ar gyfer Tai***

Mae’r ddogfen yn nodi’r dull o’r ‘canol i’r cyrion’ wrth chwilio am dir ar gyfer datblygu tai (14.2.3)

Mae’r ddogfen yn nodi’r materion y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried ar gyfer darpariaeth tai newydd (14.2.7).

**14.3 *Tai yng Nghefn Gwlad***

Mae’r ddogfen yn ymdrin â thai newydd yng nghefn gwlad gan gynnwys anheddau diarffordd (14.3.1)

***15. Datblygu Economaidd***

**15.1 *Datblygu Diwydiannol a Masnachol***

Annog mwy o ddatblygu defnydd cymysg (15.1.5).

**15.3 *Manwerthu a Chanol Trefi***

O ran datblygiadau manwerthu a hamdden newydd, mae'r ddogfen yn rhoi diffiniad o sut i brofi bod eu hangen.

***15.4 Datblygu Economaidd mewn Ardaloedd Gwledig***

Dylai polisïau cynllunio annog arallgyfeirio gwledig ac arallgyfeirio ar ffermydd er mwyn cefnogi polisïau cyffredinol y Cynulliad ar gyfer ardaloedd gwledig. Felly, mae'r drafft presennol yn gwneud y canlynol:

- annog arallgyfeirio gwledig ac arallgyfeirio ar ffermydd mewn ffordd gynaliadwy ond gan gynnwys dulliau rheoli er mwyn atal unrhyw ddatblygu annerbyniol (yn benodol paragraffau 15.4.4; 15.4.5; 15.5.1);
- darparu ar gyfer datblygiadau newydd o fewn clwstwr adeiladau'r fferm lle gellir rheoli effeithiau andwyol o ran yr amgylchedd a phriffyrdd (para 15.4.5);
- darparu canllawiau sy'n nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Unedol bennu strategaeth datblygu gwledig integredig ar gyfer datblygiadau newydd (paragraff 15.5.3. pwynt bwled 1);

Mae'r adran hon yn ymgorffori canfyddiadau cychwynnol y prosiect ymchwil 'Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio'. Dylai'r adroddiad ymchwil terfynol fod ar gael erbyn diwedd mis Ionawr 2001.

***15.7 Ail-ddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig***

Canllawiau llymach na'r canllawiau blaenorol o ran ail-ddefnyddio adeiladau at ddibenion preswyl - ar gyfer tai y gellir eu **fforddio** y dylid ail-ddefnyddio adeiladau at ddibenion preswyl (15.7.2, pwynt bwled olaf);

***<u>Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden</u>***

**17.2 Chwaraeon a Hamdden**

Adran helaethach ar Chwaraeon a Hamdden, gan roi ystyriaeth i ddatblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.

***19. Trin a Chael Gwared ar Wastraff***

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol roi ystyriaeth i'r strategaeth wastraff;

Cyflwynir Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol – yn unol â'r Nodyn Cyngor Technegol Drafft ar Wastraff;

Cyflwynir y syniad bod ardaloedd yn dod yn hunan-gynhaliol, er efallai y bydd angen trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd a rhannu cyfleusterau;

Ymchwil ar sut i ddatblygu'r Opsiwn Amgylcheddol Mwyaf Ymarferol i ymgorffori effeithiau cymdeithasol ac economaidd gan arwain at fethodoleg ar gyfer penderfynu beth fyddai'r dewis mwyaf cynaliadwy o ran rheoli gwastraff.

***20. Perygl Llifogydd a Newid yn yr Hinsawdd***

Darperir canllawiau newydd sy'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol:

- gydnabod, er bod modd lleihau'r perygl llifogydd drwy ddefnyddio mesurau i'w hatal, nad oes modd cael gwared ar y perygl yn llwyr;
- cynghori yn erbyn datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd lle gallai hynny beryglu bywydau a chreu difrod mawr, a rhoi sylw dyledus i ddadleuon dros wrthod datblygiad a fyddai'n cynyddu'r perygl llifogydd yn lleol neu mewn unrhyw le arall;
- mabwysiadu safbwynt strategol tuag at berygl llifogydd ac ymgynghori â'r awdurdodau sy'n ffinio â hwy a chydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystod y broses o baratoi'r cynlluniau datblygu;
- defnyddio'r egwyddor o fod yn rhagofalus trwy gynllunio yn awr, ac ystyried sut y disgwylir i newid yn yr hinsawdd effeithio ar y perygl llifogydd yn ystod oes y datblygiad newydd;
- cydnabod nad yw parhau i adeiladu amddiffynfeydd llifogydd gan ddefnyddio technegau peirianyddol i ddiogelu datblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, yn gynaliadwy yn y tymor hir.